



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Crynodebau Gweithredol



Gadewch i ni greu'r dyfodol gyda'n gilydd

Pennod 6 - Cip sydyn yn ôl blwyddyn o'm gweithgareddau rhwng Mai 2017 – Mai 2020

Dros y tair blynedd ddiwethaf, rwyf wedi ymgysylltu â, ymwneud â a phwyso ar farn dros [5,000 o bobl](#). Mae'r dystiolaeth a gesglais o'r gweithgareddau hyn – gwrando ar bobl, arbenigwyr a gweithio gyda gweision sifil, wedi darparu mewnwelediad sylweddol ac wedi fy helpu i ddod i'r casgliadau a'r argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn.

Blwyddyn Un

Mae [blwyddyn gyntaf](#) fy mhenodiad, Chwefror 2016–Mawrth 2017, yn disgyn y tu allan i'r cyfnod adrodd. Gellir gweld fy Adroddiad Blynnyddol ar gyfer 2016-17, [yma](#).

Blwyddyn Dau

Yn ystod fy [ail flwyddyn](#) – Ebrill 2017 – Mawrth 2018 – cynhwysais dros 1,300 o randdeiliaid yn y gwaith o ddatblygu rhaglen waith fy nghyfnod yn y swydd, gan amlygu'r meysydd ble gallwn gael y dylanwad mwyaf a gwneud y cyfraniad mwyaf i bob un o'r nodau llesiant. Cyhoeddais [fy nadansoddiad](#) analysis o'r asesiadau llesiant cyntaf a wnaed gan y 19 Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus newydd. Tynnais sylw at yr heriau a'r cyfleoedd oedd yn eu hwynebu er mwyn newid y dull rydyn ni'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Ar ôl mynegi gofid am y gwaith o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r M4, cyflwynais [dystiolaeth ysgrifenedig gyghwynnol](#) ac yna ragor o dystiolaeth further evidence i ymchwiliad cyhoeddus yr M4 oedd yn holi sut roedd y Ddeddf yn cael

ei hystyried mewn penderfyniad oedd eisoes wedi'i wneud, ac a oedd y penderfyniad i fenthycu dros £1 biliwn yn gywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Parodd yr ymyriad hwn i'r llwybr gael ei agor i gynghori Llywodraeth Cymru ar ymgorffori'r Ddeddf i mewn i ganllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a chyhoeddi fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar brosiectau isadeiledd. Future Generations Framework on infrastructure projects.

Gellir gweld mwy o wybodaeth yn fy [Adroddiad Blynnyddol ar gyfer 2017-18](#).

Blwyddyn Tri

Canolbwyntiodd fy [nhrydedd flwyddyn](#) – Ebrill 2018 – Mawrth 2019 – ar sefydlu partneriaethau strategol i helpu i ddatblygu adnoddau a chanllawiau am y Ddeddf, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth yn fy meysydd ffocws, a pharhau i wrando a chynnwys pawb sy'n gallu cyflawni gweledigaeth a gofynion y ddeddfwriaeth. Cyhoeddais ddau Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol bellach ar [dylunio gwasanaeth a chraffu](#). Heriais y Llywodraeth ynghylch sut maen nhw'n dangos fod y ddeddf yn cael ei chymhwyso i benderfyniadau gwario; ac mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd, helpais i ail-lunio Polisi Cynllunio Cymru. Ym mis mai 2019, chyhoeddais fy nadansoddiad o nodau llesiant cyntaf cyrff cyhoeddus, a chynlluniais fethodoleg ar gyfer fy rownd gyntaf o fonitro ac asesu, gan ymgymryd â'r gwaith a'i gyflawni ar ddiwedd 2019. Ceir gwybodaeth bellach yn fy [Adroddiad Blynnyddol ar gyfer 2018-19](#).



Blwyddyn Pedwar

Roedd fy [mhedwaredd flwyddyn](#), –Ebrill 2019 – Mawrth 2020 – yn canolbwyntio ar gyhoeddi adnoddau drwy gyfrwng ‘[Teithiau](#)’ Y Gallu i Greu, a pharhau i gynghori cyrff cyhoeddus er mwyn iddyn nhw allu deall y ddeddf a’i hoblygiadau. Roedd hyn yn cynnwys cyflawni dau ‘Labordai Byw’ (fy lefel fwyaf manwl o gefnogaeth) am Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf) a thai (gyda Llywodraeth Cymru). O ran y meysydd ble rwy’n ceisio gyrru newid yn rhagweithiol, canolbwyntiais ar newid y system addysg, caffael a chyllideb y llywodraeth – gan gynnwys cyhoeddi [cynllun 10 pwynt i ariannu argyfwng hinsawdd Cymru](#). O ran sgiliau ar gyfer y dyfodol, gweithiais gyda’r Athro Calvin Jones ym Mhrifysgol Caerdydd ar bapur gwyn ‘[Addysg addad ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru](#)’ i symbylu trafodaeth ar sut rydyn ni’n paratoi pobl ifanc i gael y sgiliau cywir, a hefyd lansiâs fy [Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau’r Dyfodol](#). Bydd fy Adroddiad Blyneddol ar gyfer 2019-20 yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2020.



Cyflawniadau mwyaf arwyddocaol

- Newid agwedd y Llywodraeth ar [Ffordd Liniaru’r M4](#)
- Ymgorffori’r Ddeddf wrth gaffael masnachfaint reilffyrdd Cymru a’r Gororau
- Cynnig dull newydd ar gyfer [arholi ac asesu addysg yng Nghymru](#)
- Helpu i ailsefydlu polisi cynllunio cenedlaethol yn unol â’r Ddeddf
- Sicrhau’r Ddeddf fel astell allweddol yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru
- Cytuno ar ddiffiniad a mabwysiadu diffiniad ar wariant ataliol
- Sicrhau cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer taclo’r argyfwng hinsawdd a byd natur, yn unol â’r cyngor yn fy Nghynllun 10 Pwynt
- Diwygio meini prawf ar gyfer gwell datblygiadau tai drwy gyfrwng Rhaglen Tai Arloesol
- Monitro ac asesu cynnydd tuag at gwrdd â rhyw 300 o nodau llesiant
- Cynhyrchu casgliad llawn o ganllawiau ac adnoddau ar gyfer unrhyw un sy’n gallu helpu i gyflawni’r nodau llesiant
- Rhoi cyngor a chymorth i dros 500 o bobl neu sefydliadau
- Cyrraedd y rhestr fer yng ngwobrau awards cenedlaethol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (CIPFA)
- Sefydlu Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau’r Dyfodol



Adeiladu proffil yng Nghymru a'r byd

- Cael fy enwi fel un o [100 Ysgogwr Newid Uchaf](#) y Deyrnas Unedig – Big Issue
- Derbyn sylw yn [Rhestr 'Makers and Mavericks' 2019](#)
- Helpu i ddatblygu biliau Aelodau Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y DU
- Dylanwadu ar ddatblygu polisi llesiant yng Nghanada, Emiradau Unedig Arabaidd, yr Unol Daleithiau a Seland Newydd
- Cynrychioli Cymru yn [Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig](#) ac [Uwch-gynhadledd Llywodraeth y Byd](#)
- Derbyn sylw yn [Positive News](#), [The Guardian](#), Sianel 4, BBC Future at Hay Festival, ['BBC Ideas Platform'](#), Papur Cenedlaethol De Corea a phapur Financial Times yr Iseldiroedd
- Cyfrannwr i [bodlediad 'Reasons to be Cheerful'](#) a [phodlediad 'Four Thought'](#) BBC Radio 4
- Sôn amdanaf mewn llyfrau gan Margaret Heffernan, Roman Krznaric a Jane Davidson.



Fy nghyfraniad i'r weledigaeth a amlinellir yn y Ddeddf

Mae Pennod 1 a rhan gyntaf pob un o benodau eraill yr adroddiad hwn yn disgrifio, drwy lensys amrywiol, y weledigaeth gynhwysol ac integredig ar gyfer Cymru yr ydym ni am ei gweld yn 2050, a amlinellir gan y Ddeddf. Rwyf wedi ceisio cyfrannu'r rhagweithiol i hyn drwy amlinellu meysydd ffocws sy'n gwneud y fawr o'm heffaith fy hun, a thrwy gynhyrchu arweiniad ysbrydoledig ar gyfer pob un o'r nodau.

Fy meysydd ffocws

Gan mai tîm bach sydd gennyf o ystyried ehangder ac uchelgais y Ddeddf, roedd angen i mi fod yn glyfar wrth fynd i'r afael â hyn. Yn 2017, bu i mi adnabod meysydd ffocws a allai gael yr effaith fwyaf ar y weledigaeth a'r nodau llesiant – rhywbeth cyfatebol i osod fy nodau llesiant fy hun.

Wnes i ddim dewis yr amgylchedd, diwylliant, cymuned nac economi yn fwriadol, am fod pob un yn ystyriaeth annatod i benderfyniadau ym mhob maes. Wrth i mi ddadansoddi cynnydd mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad hwn, canfyddiad cyffredin fu gweld nad yw cyrff cyhoeddus yn dilyn dull gweithredu digon integredig: yn aml nid yw gweithredu ar un mater yn gwneud digon i yrru newid ar yr un pryd mewn meysydd eraill. Gall wneud hyn, a rhaid iddo wneud hyn. Rwyf wedi ceisio dangos drwy esiampl y gall gweithredu ar faterion polisi penodol gael manteision lluosog ar bob un o'r pedwar dimensiwn ar lesiant, heb orfod tynnu sylw penodol i'r amgylchedd nac unrhyw agwedd ar lesiant.

Gellir rhannu fy meysydd ffocws yn ddau grŵp:

Ein lleoedd ac isadeiledd

- Trafnidiaeth
- Cynllunio defnydd o dir
- Tai

Ein pobl

- Atal profiadau niweidiol mewn plentyndod (ACEs)
- Sgiliau ar gyfer y dyfodol
- System iechyd a llesiant

Wrth symud pob un o'r rhain yn eu blaen, rwyf wedi ceisio cyfrannu'r ymarferol a rhagweithiol i'r weledigaeth a'r nodau mewn sawl ffordd. Er enghraifft, drwy:

- Ymestyn ac esbonio beth yw ystyr a gweledigaeth y nodau i Gymru
- Darparu cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus
- Monitro'u cynnydd i sicrhau newid polisi a gweithdrefn
- Cyhoeddi adnoddau, ymchwil a dadansoddiadau sy'n arwain at ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol neu leol
- Ymateb i dystiolaeth neu bryderon a godir gan y cyhoedd a'u cynrychiolwyr
- Cydweithio gydag eraill a symud gwaith ar y cyd ymlaen
- Hyrwyddo syniadau arloesol
- Rhannu astudiaethau achos o Gymru ac yn ehangach er mwyn helpu arfer dda i deithio
- Dangos y ffordd a bod y newid yr wyf eisiau ei weld mewn eraill o ran sut rwy'n rheoli fy swyddfa fyhun.

Gweler yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol llawn i gael mwy o fanylion am y gwaith hyd yma.

